

Rhif Cyfeirnod: UHB 220 Rhif Fersiwn: 3	Dyddiad Adolygiad Nesaf: 25/06/2022 Rhif Cyfeirnod Ymddiriedaeth BILI Blaenorol: TR56
Rhowch Deitl y Polisi	
Datganiad Polisi Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn darparu ei nodau, amcanion, cyfrifoldebau a gofynion cyfreithiol yn dryloyw ac yn gyson, byddwn yn sicrhau bod recriwtio a dethol staff yn digwydd mewn modd systematig, cynhwysfawr a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal bob amser, gwaredu gwahaniaethu a hyrwyddo perthnasoedd da.	
Ymrwymiad Polisi Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y BIP) yn cydnabod bod ei gyflogeion yn hanfodol i'w lwyddiant. Yn sgil hyn, mae'r BIP wedi ymrwymo i ddenu, penodi a chadw staff cymwys a brwdfrydig gyda'r sgiliau a'r profiad gorau i sicrhau darpariaeth gwasanaeth o safon ac i sicrhau bod ei werthoedd yn cael eu hategu. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn: • Darparu Polisi wedi'i ddiffinio'n dda a Gweithdrefn ategol i reolwyr i weithio ynddi, a sicrhau eu bod nhw'n gwybod beth yw'r egwyddorion sy'n ategu'r prosesau recriwtio a dethol • Hyrwyddo gwerthoedd y BIP a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu wrth ddewis ymgeiswyr • Gweithio o fewn deddfwriaeth gyflogaeth bresennol a chanllawiau arfer gorau i sicrhau proses recriwtio teg a chyfartal. • Ystyried, cyn hysbysebu swydd, a oes sgôp i foderneiddio neu gymysgu sgiliau i alluogi gwelliant • Sicrhau bod gan bob swydd ddisgrifiad swydd ysgrifenedig, manyleb person ac amlinelliad KSF / Cynllun Swydd (fel sy'n briodol) • Ceisio ymgysylltu gweithwyr fel cyflogeion lle bo'n bosibl Os nad yw hyn yn bosibl, y llwybr dewisol bydd drwy'r Swyddfa Staffio Dros Dro (Banc) / Asiantaethau. Bydd contractwyr hunan-gyflogedig yn cael eu cynnwys os nad yw'r llwybrau arferol ar gael, a byddant yn amodol ar y Broses Gaffael Oddi ar y Gyflogres i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Gweithio Oddi Ar y Gyflogres yn y Sector Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017. • Penodi staff ar gontractau parhaol fel norm, gan ddefnyddio contractau tymor penodol pan fo angen a phan fo'n briodol. Bydd unrhyw gyflogai sydd ar gontract tymor penodol yn gymwys ar gyfer telerau ac amodau cyflogaeth nad ydynt yn llai ffafriol ar sail pro-rata na thelerau ac amodau cyflogai parhaol, oni bai bod rheswm amlwg dros beidio â gwneud hynny. Bydd cyflogeion tymor penodol yn cael eu trin yn yr un modd â chyflogeion parhaol mewn perthynas â	

Teitl y Ddogfen: Polisi Recriwtio A Dethol	1 o 2	Dyddiad Cymeradwyo: 09/06/19
Rhif Cyfeirnod: UHB 220		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25/06/22
Rhif Fersiwn: 3		Dyddiad Cyhoeddi: 9/07/19
Cymeradwywyd Gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

- chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, hyrwyddo, trosglwyddo a gwerthuso
- Dylid caniatáu addasiadau rhesymol os yw pobl ag anableddau'n ymgeisio
 - Dylid rhoi ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad ar sail y wybodaeth y maen nhw'n ei darparu ar eu ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a nodir yn y manyleb person ar gyfer y swydd
 - Sicrhewch bod bob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael cyfweiliad ffurfiol cyn penodi. Ni fydd unrhyw gwestiynau gwahaniaethu'n cael eu gofyn.
 - Sicrhewch fod bob cynnig cyflogaeth yn amodol ar wiriadau cyflogaeth, gan gynnwys gwiriadau Datgelu a Gwahardd a chofrestru proffesiynol (os yw'n briodol).
 - Sicrhewch fod bob aelod staff sydd angen cael ei gofrestru gyda chorff rheoleiddio statudol er mwyn gwneud eu gwaith wedi cofrestru'n briodol.
 - Sicrhewch fod Prif Weithredwr y Gweithlu a'r CG a/neu Gyfarwyddwr Llywodraethu'n cymryd rhan rhagweithiol mewn cefnogi a rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr neu Gadeirydd o ran penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol Ystyried yn rhagweithiol sgiliau'r Gymraeg yn rhan o'r broses recriwtio i helpu i fodloni ymrwymiad BIP i gynnig gofal iechyd o safon drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Cynnig gwybodaeth i reolwyr ar ddechrau'r raddfa gyflog (gan gynnwys pan fo gwasanaeth arall neu gredydau graddol yn berthnasol) a'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyflwyno cynnig cyflog
 - Rhoi cymorth ariannol ar ddisgresiwn BIP i benodeion sydd angen symud i ddechrau gweithio gyda BIP Caerdydd a'r Fro, er mwyn denu'r staff gorau posibl.

Sicrhau bod staff newydd yn cael eu croesawu ac yn setlo i'w rôl yn y sefydliad, a galluogi nhw i fod mor effeithiol â phosibl cyn gynted â phosibl, drwy raglen sefydlu wedi'i gynllunio'n ofalus.

Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol yn disgrifio'r hyn a ganlyn mewn perthynas â recriwtio a dethol:

- Rolau a chyfrifoldebau
- Egwyddorion sy'n llywodraethu a dethol
- Contractau Tymor Penodol
- Recriwtio a'r laith Gymraeg
- Y gofynion a'r prosesau ynghylch cofrestru proffesiynol
- Gwiriadau ac atgyweiriadau GDG, gan gynnwys tynnu nôl cynnig cyflogaeth os yw'n briodol
- Tystiolaeth sydd ei hangen i gyflwyno cynnig cyflog
- Sefydlu
- Costau Adleoli

Dyma'r dogfennau ategol eraill:

Teitl y Ddogfen: Polisi Recriwtio A Dethol	1 o 2	Dyddiad Cymeradwyo: 09/06/19
Rhif Cyfeirnod: UHB 220		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25/06/22
Rhif Fersiwn: 3		Dyddiad Cyhoeddi: 9/07/19
Cymeradwywyd Gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

- Gweithdrefn Recriwtio a Dethol
- Gweithdrefn Recriwtio a Dethol ar gyfer Staff Meddygol a Deintyddol
- Pecyn Cymorth Recriwtio a Dethol ar gyfer Rheolwyr GIG
- Polisi a Gweithdrefn Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Secondiad
- Polisi Contract tymor penodol
- Polisi Cofrestriad Proffesiynol
- Polisi Newid Sefydliadol
- Polisi a Gweithdrefn Adleoli
- Protocol Swyddi Newydd ac wedi newid

Gweithdrefn Cefnogi Staff trawsryweddol

Sgôp

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob rheolwr sydd ynghlwm wrth recriwtio a dethol staff.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd

Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gyflawni ar gyfer y polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol a gwelwyd effaith bositif. Mae camau allweddol wedi'u nodi ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y polisi hwn/gweithdrefn ategol.

Cymeradwywyd y Polisi gan

Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni

Grŵp gydag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau sydd wedi'u hysgrifennu i egluro sut fydd y polisi hwn yn cael ei weithredu

Is-grŵp Polisi Cyflogaeth

Cyfarwyddwr Gweithredol neu Fwrdd Clinigol sy'n Atebol

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi pasio, sicrhewch fod y fersiwn yr ydych chi ei defnyddio yn gyfredol un ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu.

Crynodeb o'r adolygiadau/diwygiadau

Teitl y Ddogfen: Polisi Recriwtio A Dethol	1 o 2	Dyddiad Cymeradwyo: 09/06/19
Rhif Cyfeirnod: UHB 220		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25/06/22
Rhif Fersiwn: 3		Dyddiad Cyhoeddi: 9/0719
Cymeradwywyd Gan: Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni		

Rhif Fersiwn	Dyddiad y Cymeradwywyd yr Adolygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o'r diwygiadau
1	04.03.14	09.04.14	Wedi'i diweddaru o'r ddogfen Ymddiriedaeth i adlewyrchu newid mewn prosesau oherwydd Gwasanaethau a Rennir
2			- Polisi a'r Weithdrefn ar wahân yn unol â fformat BIP - Polisi bellach ar gyfer bob aelod staff, nid y rhai dan delerau ac amodau AFC yn unig - Wedi cynnwys cyfeiriad at gontractwyr hunan-gyflogedig - Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a'r CG a/neu y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn cymryd rhan rhagweithiol mewn cefnogi a rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr neu Gadeirydd o ran penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol
3	25.06.2019	09.07.2019	Cyfeiriadau at y GIG a chofrestriadau proffesiynol wedi'u cryfhau a chostau adleoli wedi'u hychwanegu